Llinyn: Technegau Disgyblu (Dawns)

– Perfformio a dawnslunio

Llinyn: Technegau Disgyblu (Dawns)

	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Gwybodaeth a Sgiliau	**Angen gwybod/deall:** • Sut i ymateb i gerddoriaeth drwy gopïo symudiadau • Adeiladu dawns fer gan ddefnyddio sgiliau echddygol bras • Dechrau siarad am gerddoriaeth er mwyn dawnsio iddi • Dilyn gweithrediadau dawns a roddir • Sut rydych yn dangos eich bod yn hapus neu’n drist? • Cymryd rhan yn eu dawns sydd wedi’i dawnslunio • Copïo a defnyddio rhai nodweddion dawnslunio (gweithred, deinameg, gofodol, perthynas, prosesau a dyfeisiau dawnslunio, strwythur, gosodiad clywedol, amgylcheddau perfformio, cyfleu bwriad dawnslunio) • Rhoi cynnig ar sgiliau ar gyfer perfformio (sgiliau a nodweddion corfforol, sgiliau technegol, sgiliau mynegiannol, sgiliau a nodweddion meddwl – yn ystod y perfformiad a’r broses, arferion gweithio diogel – yn ystod y perfformiad a’r broses) **Gallu defnyddio/gwneud:** • Gweithio ar y cyd i ddatblygu perfformiad • Dangos dechrau a diwedd dawns • Siarad am sut mae’r gerddoriaeth yn gwneud i chi deimlo a sut yr hoffech symud • Gweithio mewn amrywiaeth o feintiau grwpiau • Dilyn cyfarwyddiadau am arferion gweithio diogel • Siarad am rai geiriau ‘Gweithredu’ wrth gynllunio dawnsiau • Siarad am eu perfformiad eu hunain • Dangos wyneb hapus/trist pan fo angen • Gwylio amrywiaeth o ddawnsiau • Bod yn ymwybodol o ofod wrth ddawnsio • Perfformio i gynulleidfa gydag ymwybyddiaeth o safle’r gynulleidfa • Dechrau adeiladu cof drwy ailadrodd dilyniannau byr gan ddefnyddio cardiau dilyniannau neu dechnegau fy nghopïo i	**Angen gwybod/deall:** • Sut i ddefnyddio elfennau dawns er mwyn dawnslunio dawns fel perfformiad grŵp • Dechrau siarad am ganeuon dawns a roddir (gosodiad clywedol) • Cynllunio defnyddio gweithrediadau dawns mewn arddull a addysgir • Trafod sut i gyfleu eu tymer, syniad neu thema eu hunain (bwriad dawnslunio) • Cymryd rhan yn eu dawns sydd wedi’i dawnslunio • Defnyddio rhai nodweddion dawnslunio (gweithrediadau, deinameg, gofodol, perthynas, prosesau a dyfeisiau dawnslunio, strwythur, gosodiad clywedol, amgylcheddau perfformio, cyfleu bwriad dawnslunio) • Defnyddio peth gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ar gyfer perfformio (sgiliau a nodweddion corfforol, sgiliau technegol, sgiliau mynegiannol, sgiliau a nodweddion meddwl – yn ystod y perfformiad a’r broses, arferion gweithio diogel – yn ystod perfformiad a phrosesau) **Gallu defnyddio/gwneud:** • Gweithio ar y cyd i ddatblygu perfformiad gan ddangos peth defnydd o sgiliau technegol a chorfforol • Dangos dechrau, canol a diwedd dawns • Siarad am sut mae’r gerddoriaeth yn gwneud i chi deimlo a sut yr hoffech symud • Gweithio mewn amrywiaeth o feintiau grwpiau • Dilyn cyfarwyddiadau am arferion gweithio diogel • Siarad am rai geiriau ‘Gweithredu’ wrth gynllunio dawnsiau • Archwilio arddulliau dawns • Gwerthuso eu perfformiad eu hunain • Meithrin ymwybyddiaeth o fynegiant yr wyneb • Gwylio amrywiaeth o arddulliau dawns • Deall y defnydd o ofod wrth ddawnsio • Perfformio i amrywiaeth o gynulleidfaoedd gydag ymwybyddiaeth o safle’r gynulleidfa • Adeiladu cof drwy ailadrodd dilyniannau byrion	**Angen gwybod/deall:** • Sut gallwch ddefnyddio ysgogwr i ymateb yn greadigol • Sut i ddefnyddio elfennau dawns i ddawnslunio rhannau o ddawns fel perfformiad grŵp • Gallu trafod a dewis caneuon dawns o set benodol (gosodiad clywedol) • Datblygu dawns wedi’i dawnslunio mewn arddull a addysgir • Trafod sut i gyfleu eu tymer, syniad neu thema (bwriad dawnslunio) • Cymryd rhan yn eu dawns sydd wedi’i dawnslunio • Dechrau arwain rhan o ddawns wedi’i dawnslunio • Datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o ddawnslunio (gweithrediad, deinameg, gofodol, perthynas, prosesau a dyfeisiau dawnslunio, gosodiadau clywedol, strwythur, amgylcheddau perfformio, cyfleu bwriad dawnslunio) • Datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ar gyfer perfformiad (sgiliau a nodweddion corfforol, sgiliau technegol, sgiliau mynegiannol, sgiliau a nodweddion meddwl - yn ystod perfformiad a phroses, arferion gweithio diogel - yn ystod perfformiad a phrosesau) **Gallu defnyddio/gwneud:** • Gweithio ar y cyd i gynllunio a datblygu perfformiad sy’n dangos y defnydd o sgiliau technegol a chorfforol • Arddangos gwybodaeth gynyddol o strwythur wrth gynllunio dawnsiau • Trafod sut i ymateb i ysgogwr • Arddangos datblygiad techneg dros amser • Gweithio mewn amrywiaeth o feintiau grwpiau • Datblygu ymwybyddiaeth o arferion gweithio diogel • Deall terminoleg briodol mewn trafodaethau grŵp gyda chymorth • Archwilio arddulliau dawns • Gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill mewn dawnslunio a pherfformio • Archwilio cyswllt • Dysgu am ddyluniadau ar gyfer gwisg • Trafod a datblygu’r defnydd o fynegiant yr wyneb • Dysgu am setiau, dylunio a goleuo sioeau • Gwylio amrywiaeth o arddulliau dawns • Datblygu ymwybyddiaeth ofalgar gynyddol • Dysgu am amgylcheddau perfformio gwahanol	**Angen gwybod/deall:** • Mae angen ysgogwr arnoch i ymateb yn greadigol • Sut i ddefnyddio elfennau dawns i ddawnslunio rhannau o ddawns fel perfformiad unigol a grŵp • Gallu trafod a dewis caneuon dawns (gosodiad clywedol) • Datblygu dawns wedi’i dawnslunio mewn arddull a addysgir neu gyfuniad o arddulliau • Trafod sut i gyfleu eu tymer, ystyr, syniad neu thema eu hunain (bwriad dawnslunio • Cymryd rhan yn eu dawns eu hunain wedi’i dawnslunio • Dechrau cyfarwyddo rhan o ddawns wedi’i dawnslunio • Dechrau defnyddio gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o ddawnslunio (gweithrediad, deinameg, gofodol, perthynas, prosesau a dyfeisiau dawnslunio, gosodiadau clywedol, strwythur, amgylcheddau perfformio, cyfleu bwriad dawnslunio) • Dechrau defnyddio gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ar gyfer perfformiad (sgiliau a nodweddion corfforol, sgiliau technegol, sgiliau mynegiannol, sgiliau a nodweddion meddwl - yn ystod perfformiad a phroses, arferion gweithio diogel - yn ystod perfformiad a phrosesau) **Gallu defnyddio/gwneud:** • Gweithio ar y cyd i gynllunio a datblygu perfformiad sy’n dangos datblygiad cynyddol sgiliau technegol a chorfforol • Arddangos gwybodaeth gynyddol o strwythur, datblygiad motif, sgiliau mynegiannol • Trafod sut i ymateb i ysgogwr • Datblygu dealltwriaeth o sut i wella techneg • Gweithio mewn amrywiaeth o feintiau grwpiau • Dechrau dangos dealltwriaeth o’r defnydd o arferion gweithio diogel • Dechrau dangos rheolaeth gynyddol o sgiliau technegol a chorfforol • Dechrau defnyddio terminoleg briodol mewn trafodaethau grŵp • Archwilio arddulliau dawns • Dadansoddi, dehongli a gwerthuso eu gwaith eu hunain mewn dawnslunio a pherfformiad • Archwilio cyswllt a chymryd pwysau • Dechrau datblygu’r defnydd o ymchwil a byrfyfyr • Trafod dyluniadau ar gyfer gwisgoedd • Trafod gosodiadau clywedol • Trafod a datblygu’r defnydd cynyddol o fynegiant yr wyneb ac adrodd straeon	**Angen gwybod/deall:** • Sut i ymateb yn greadigol i ysgogwr • Dawnslunio eu dawns gyfan eu hunain fel perfformiad unigol a grŵp (dau i bum dawnsiwr) • Gallu dewis gosodiad clywedol • Datblygu dawns wedi’i dawnslunio mewn unrhyw arddull neu gymysgedd o arddulliau • Cyfleu eu bwriad dawnslunio dewisol eu hunain • Cymryd rhan yn eu dawns sydd wedi’i dawnslunio • Cyfarwyddo eu dawns wedi’u dawnslunio eu hunain • Defnyddio gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dawnslunio (gweithred, deinameg, gofodol, perthynas, prosesau a dyfeisiau dawnslunio, gosodiad clywedol, amgylcheddau perfformiad, cyfleu bwriad dawnslunio) • Defnyddio gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ar gyfer perfformiad (sgiliau a nodweddion corfforol, sgiliau technegol, sgiliau mynegiannol, sgiliau a nodweddion meddwl – yn ystod y perfformiad a’r broses, arferion gweithio diogel – yn ystod perfformiad a phroses) **Gallu defnyddio/gwneud:** • Datblygu perfformiad sy’n dangos datblygiad sgiliau technegol a chorfforol • Deall strwythur, datblygiad motif, sgiliau mynegiannol • Ymateb i ysgogwr • Gwella techneg • Gweithio mewn amrywiaeth o feintiau grwpiau • Ffocws ar ddyfeisiau a ffurf strwythuro • Arddangos y defnydd o arferion gweithio diogel • Arddangos sgiliau technegol a chorfforol wedi’u rheoli • Arddangos y defnydd o derminoleg briodol • Penderfynu ar eu dyluniad gwisg eu hunain • Penderfynu ar osodiadau clywedol • Trafod a datblygu mynegiant wyneb ac adrodd straeon • Dealltwriaeth o setiau, dylunio a goleuo sioeau • Profiad a datblygiad amrywiaeth o arddulliau dawns • Archwilio arddulliau dawns • Dadansoddi’n feirniadol, dehongli a gwerthuso eu gwaith eu hunain mewn dawnslunio a pherfformiad • Archwilio cyswllt a chymryd pwysau gan gynnwys codi

Llinyn: Technegau Disgyblu (Dawns)

	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Gwybodaeth a Sgiliau			• Perfformio i amrywiaeth o gynulleidfaoedd • Deall pwysigrwydd cof symud, ymrwymiad, canolbwyntio, hyder, ailadrodd systematig, ymarfer meddyliol, ymateb i adborth, capasiti i wella, cynllunio ymarferion • Deall pwysigrwydd bwriad dawnslunio i greu dawnsiau llwyddiannus	• Datblygu gwybodaeth am setiau, dylunio a goleuo sioeau • Profi amrywiaeth o arddulliau dawns • Datblygu gwybodaeth am ddyluniad gofodol • Trafod perfformiadau pobl eraill a'u hunain at ddibenion gwerthuso • Datblygu gwybodaeth am amgylcheddau perfformio • Archwilio'r defnydd o bropiau • Perfformio i amrywiaeth o gynulleidfaoedd • Deall pwysigrwydd cof symud, ymrwymiad, canolbwyntio, hyder, ailadrodd systematig, ymarfer meddyliol, ymateb i adborth, capasiti i wella, cynllunio ymarferion • Deall pwysigrwydd bwriad dawnslunio i greu dawnsiau llwyddiannus	• Deall y prosesau ymchwil a byrfyfyr • Penderfynu ar eu dyluniad gwisg eu hunain • Penderfynu ar osodiadau clywedol • Trafod a datblygu mynegiant wyneb ac adrodd straeon • Dealltwriaeth o setiau, dylunio a goleuo sioeau • Profiad a datblygiad amrywiaeth o arddulliau dawns • Deall dylunio gofodol • Dadansoddi perfformiadau pobl eraill a'u perfformiad eu hunain • Deall amrywiaeth o amgylcheddau perfformio • Archwilio'r defnydd o bropiau a dechrau cynllunio ar gyfer eu defnydd • Perfformio cymalau penodol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd • Deall pwysigrwydd cof symudiad, ymrwymiad, canolbwyntio, hyder, ailadrodd systematig, ymarfer meddyliol, ymateb i adborth, capasiti i wella, cynllunio ymarferion • Deall pwysigrwydd bwriad dawnslunio i ddawnsio llwyddiannus
Geirfa	**Gweithred** • Teithio • Troi • Ystum • Llonyddwch • Defnyddio'r corff cyfan **Cynnwys deinameg** • Cyflym/araf **Cynnwys gofodol** • Cyfeiriadau • Maint y symudiad **Arwain a dilyn** • Copïo • Adlewyrchu **Prosesau dawnslunio** • Dewis • Creu **Strwythuro dyfeisiau a ffurf** • Dechrau a diwedd • Undod **Dyfeisiau dawnslunio** • Motiff (dilyniant bach) • Ailadrodd • Undod **Gosodiadau clywedol ar gyfer canlyniadau dawnslunio** • Cân • Offerynnol • Tawelwch • Taro'r corff • Naws ac atmosffer • Perthynas â thema/syniad **Amgylchiadau perfformio** • Yn sensitif i safle (mannau nad ydynt yn theatr) • Mewn cylch	**Gweithred** • Teithio • Troi • Ystum • Llonyddwch • Defnyddio'r corff cyfan a rhai darnau corff gwahanol **Cynnwys deinameg** • Cyflym/araf • Cryf/ysgafn **Cynnwys gofodol** • Lefelau • Cyfeiriadau • Maint symudiad **Arwain a dilyn** • Copïo • Adlewyrchu • Gweithred ac ymateb **Prosesau dawnslunio** • Dewis • Creu • Datblygu **Strwythuro dyfeisiau a ffurf** • Dechrau/canol/diwedd • Undod • Dilyniant rhesymegol **Dyfeisiau dawnslunio** • Motiff • Ailadrodd • Trin rhifau • Undod a chanon	**Gweithred** • Teithio • Troi • Ystum • Llonyddwch • Defnyddio'r corff cyfan a rhai darnau corff gwahanol • Gwaith llawr **Cynnwys deinameg** • Araf/cyflym • Cyflymu/arafu • Cryf/tawel **Cynnwys gofodol** • Llwybrau • Lefelau • Cyfeiriadau • Maint symudiad **Arwain a dilyn** • Adlewyrchu • Gweithredu ac ymateb • Crynodiad • Cyswllt • Ffurfiannau **Prosesau dawnslunio** • Dewis • Creu • Datblygu • Strwythuro • Mireinio **Strwythuro dyfeisiau a ffurf** • Dwyran • Teiran • Dechrau/canol/diwedd • Undod • Dilyniant rhesymegol	**Gweithred** • Teithio • Troi • Ystum • Llonyddwch • Defnyddio rhannau gwahanol o'r corff • Gwaith llawr • Trosglwyddo pwysau **Cynnwys deinameg** • Cyflym/araf • Y sydyn/wedi'i gynnal • Cyflymu/arafu • Cryf/ysgafn **Cynnwys gofodol** • Llwybrau • Lefelau • Cyfeiriadau • Maint y symudiad • Patrymau **Arwain a dilyn** • Adlewyrchu • Gweithredu ac ymateb • Crynodiad • Cyd-fynd a chyferbynnu • Cyswllt • Ffurfiannau **Prosesau dawnslunio** • Ymchwilio • Byrfyfyr • Creu • Dewis • Datblygu • Strwythuro • Mireinio	**Gweithred** • Teithio • Troi • Codi • Ystum • Llonyddwch • Defnyddio rhannau gwahanol o'r corff • Gwaith llawr • Trosglwyddo pwysau **Cynnwys deinameg** • Cyflym/araf • Yn sydyn/wedi'i gynnal • Cyflymu/arafu • Cryf/ysgafn • Yn llifo/yn sydyn **Cynnwys gofodol** • Llwybrau • Lefelau • Cyfeiriadau • Maint symudiad • Patrymau • Dyluniad gofodol **Arwain a dilyn** • Adlewyrchu • Gweithredu ac ymateb • Crynodiad • Cyd-fynd a chyferbynnu • Gwrthbwynt • Cyswllt • Ffurfiannau **Prosesau dawnslunio** • Ymchwilio • Byrfyfyr • Creu • Dewis

Llinyn: Technegau Disgyblu (Dawns)

	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Geirfa	**Cyfathrebu bwriad dawnslunio** • Syniad/au • Thema/âu	**Gosodiadau clywedol ar gyfer canlyniadau dawnslunio** • Cân • Offerynnol • Tawelwch • Sain newydd • Taro'r corff • Naws ac atmosffer • Perthynas â thema/syniad **Amgylchiadau perfformio** • Llwyfan • Yn sensitif i safle (mannau nad ydynt yn theatr) • Mewn cylch **Cyfathrebu bwriad dawnslunio** • Naws • Syniad/au • Thema/âu	**Dyfeisiau dawnslunio** • Motiff a datblygiad • Ailadrodd • Cyferbynnu • Trin rhifau • Undod a chanon **Gosodiadau clywedol ar gyfer canlyniadau dawnslunio** • Caneuon • Offerynnol • Cerddorfaol • Tawelwch • Canfod sain • Taro'r corff • Naws ac atmosffer • Strwythur • Perthynas â thema/syniad **Amgylchiadau perfformio** • Llwyfan • Sensitif i safle (mannau nad ydynt yn theatr) • Mewn cylch **Cyfathrebu bwriad dawnslunio** • Naws • Syniad/au • Thema/âu	**Strwythuro dyfeisiau a ffurf** • Dwyran • Teiran • Rondo • Dechrau/canol/diwedd • Undod • Dilyniant rhesymegol • Trosi **Dyfeisiau dawnslunio** • Motiff a datblygiad • Ailadrodd • Cyferbynnu • Uchafbwyntiau • Trin rhifau • Undod a chanon **Gosodiadau clywedol ar gyfer canlyniadau dawnslunio** • Caneuon • Offerynnol • Cerddorfaol • Tawelwch • Sain naturiol • Canfod sain • Taro'r corff • Naws ac atmosffer • Cyferbynnu ac amrywiaeth • Strwythur • Perthynas â thema/syniad **Amgylchiadau perfformio** • Llwyfan • Diwedd y llwyfan • Sensitif i safle (mannau nad ydynt yn theatr) • Mewn cylch **Cyfathrebu bwriad dawnslunio** • Naws • Ystyr/on • Syniad/au • Thema/âu	• Datblygu • Strwythuro • Mireinio a chyfuno **Strwythuro dyfeisiau a ffurf** • Dwyran • Teiran • Rondo • Naratif • Episodig • Dechrau/canol/diwedd • Undod • Dilyniant rhesymegol • Trosi **Dyfeisiau dawnslunio** • Motiff a datblygiad • Ailadrodd • Cyferbynnu • Uchafbwyntiau • Diweddglo • Trin rhifau • Undod a chanon **Gosodiadau clywedol ar gyfer canlyniadau dawnslunio** • Caneuon • Offerynnol • Cerddorfaol • Gair llafar • Tawelwch • Sain naturiol • Canfod sain • Taro'r corff • Naws ac atmosffer • Cyferbynnu ac amrywiaeth • Strwythur • Perthynas â thema/syniad **Amgylchiadau perfformio** • Theatr/arch/llwyfan prosceniwm • Diwedd llwyfan • Sensitif i safle (mannau nad ydynt yn theatr) • Mewn cylch **Cyfathrebu bwriad dawnslunio** • Naws • Ystyr/on • Syniad/au • Thema/âu • Arddull/cyfuno arddulliau

Llinyn: Technegau Disgyblu (Dawns)					
	Cam Cynnydd 1	**Cam Cynnydd 2**	**Cam Cynnydd 3**	**Cam Cynnydd 4**	**Cam Cynnydd 5**
Profiadau a Nodweddion	• Mae’n hanfodol defnyddio amrywiaeth o weithgareddau sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu. • Gan ddefnyddio sgiliau echddygol bras, mae dysgwyr yn symud o amgylch i arddulliau cerddoriaeth penodol, gan siarad am sut mae’n eu gwneud iddynt deimlo a dangos hyn drwy fynegiant yr wyneb yn ogystal â meintiau amrywiol o symudiadau’r corff. • Wrth wrando ar gerddoriaeth, gall dysgwyr benderfynu os gallant a sut gallant ddawnsio iddi gan ddefnyddio rhai elfennau dawns. • Dangos a chopïo – gall dysgwyr ddilyn gweithrediadau’r athro/fideo. • Cardiau ysgogi - dysgwyr i ddefnyddio’r cardiau ysgogi i greu dilyniant byr a pherfformio hwn i’w dosbarth a’r gynulleidfa a gall dysgwyr nodi’r symudiadau y mae dysgwyr yn eu gwneud drwy chwarae gêm gydweddu parau wrth iddynt wylio’r ddawns. • Gan ddefnyddio ysgogiadau, gall dysgwyr greu dawns fer gyda dechrau a diwedd gan ddefnyddio ailadrodd a dawnsio gyda’i gilydd fel grŵp. • Gwrando ar gerddoriaeth wahanol er mwyn i’r dysgwyr ddewis yr hyn maent yn ei hoffi a siarad am y rheswm pam. Siarad am sut gall y ddawns helpu i bobl weld yr hyn y mae dysgwyr wedi siarad amdano. Siarad am gyflymder, teimladau, lefelau sain, seiniau miniog a llyfn, ac arwain y dysgwyr i ddefnyddio’r rhain yn eu symudiadau. • Sefydlu siapiau cynulleidfa gwahanol fel bod dysgwyr yn dod i’r arfer â ‘wynebu’r’ gynulleidfa. Cyflwynir llinellau a chylchoedd traddodiadol ar y pwynt hwn.	• Mae’n hanfodol defnyddio amrywiaeth o weithgareddau sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu. • Gan ddefnyddio sgiliau echddygol bras, mae dysgwyr yn symud o amgylch i arddulliau cerddoriaeth penodol, gan siarad am sut mae’n eu gwneud iddynt deimlo a dangos hyn drwy fynegiant yr wyneb yn ogystal â meintiau amrywiol o symudiadau’r corff. • Wrth wrando ar gerddoriaeth, gall dysgwyr benderfynu os gallant a sut gallant ddawnsio iddi gan ddefnyddio elfennau dawns. Gallai cerddoriaeth isel arddangos symudiadau lefelau isel lle gall cerddoriaeth uwch gael ei mynegi mewn symudiadau lefelau uwch. • Dangos a chopïo – gall dysgwyr ddilyn gweithrediadau’r athro/fideo. Adlewyrchu partner, cyswllt â chymesuredd. Gemau cysylltiad gweithrediadau (yn debyg i gysylltiad geiriau) Os ydw i’n gwneud y symudiad hwn, sut byddwch yn ymateb? Defnyddiwch y cwestiwn am symudiad a’r motiffau ateb. • Cardiau ysgogi – dysgwyr i ddefnyddio’r cardiau ysgogi i greu dilyniant byr a pherfformio hwn i’w dosbarth a’r gynulleidfa a gall dysgwyr nodi;r symudiadau y mae dysgwyr yn eu gwneud drwy chwarae gêm gydweddu parau wrth iddynt wylio’r ddawns. Unwaith bod grŵp wedi gorffen siarad am y pethau aeth yn dda, cysylltu ag elfennau dawns a’r hyn y gellid ei wneud y tro nesaf i wella pethau. • Gan ddefnyddio ysgogiadau, gall dysgwyr greu dawns fer gyda dechrau, canol a diwedd gan ddefnyddio ailadrodd a dawnsio gel grwpiau o feintiau cymysg. Grwpiau i archwilio symudiadau undod a chanon (ailadrodd) yn ogystal ag ailadrodd eu dilyniant am yn ôl er mwyn datblygu eu dawns. • Gwrando ar gerddoriaeth wahanol er mwyn i’r dysgwyr ddewis yr hyn maent yn ei hoffi a siarad am y rheswm pam. Siarad am sut gall y ddawns helpu i bobl weld yr hyn y mae dysgwyr wedi siarad amdano. Siarad am gyflymder, teimladau, lefelau sain, seiniau miniog a llyfn, ac arwain y dysgwyr i ddefnyddio’r rhain yn eu symudiadau.	• Mae’n hanfodol defnyddio amrywiaeth o weithgareddau sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu. • Dechrau defnyddio elfennau CGGE mewn dawnsiau. • Dechrau datblygu gwybodaeth am sut gall grwpiau cyhyrau a chryfder craidd gael ei defnyddio i wella ansawdd symudiadau. • Archwilio symudiadau ar rannau amrywiol o’r corff ar lefelau amrywiol. • Datblygu gwybodaeth am sut mae llonyddwch yn dangos dechrau a diwedd dawns. • Archwilio sut mae tempo symudiadau’n cysylltu â cherddoriaeth gefndir. • Dechrau meddwl am newidiadau mewn cyfeiriadau, lefelau. Trafod y defnydd o feintiau symudiadau amrywiol. • Dylai gwybodaeth gynyddol am ymwybyddiaeth ofalgar ddod yn fwy annibynnol gan ddeall eu safle eu hunain • Dylai dawnsiau grŵp gynnwys gweithrediadau arwain a dilyn o fewn yr un ddawns. • Deall beth yw motif a sut gall gael ei ddatblygu i symud o undod i symudiadau arwain a dilyn. • Gwylio dawnsiau i drafod y defnydd o ffurf ar ddawnslunio a sgiliau technegol. • Ymchwilio i gymysgedd o arddulliau dawns a thrafod sut gall y rhain gael eu defnyddio yn eu dawnsiau eu hunain. • Gwrando ar amrywiaeth o osodiadau clywedol a siarad am y ffyrdd y gall y gerddoriaeth gael ei defnyddio mewn dawnsio. • Cardiau ysgogi – dysgwyr i ddefnyddio’r cardiau ysgogi i greu dilyniant byr a pherfformio hwn i’w dosbarth a’r gynulleidfa a gall dysgwyr nodi;r symudiadau y mae dysgwyr yn eu gwneud drwy chwarae gêm gydweddu parau wrth iddynt wylio’r ddawns. Unwaith bod grŵp wedi gorffen siarad am y pethau aeth yn dda, cysylltu ag elfennau dawns a’r hyn y gellid ei wneud y tro nesaf i wella pethau.	• Mae’n hanfodol defnyddio amrywiaeth o weithgareddau sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu. • Datblygu dealltwriaeth o’r elfennau CGGE i’w defnyddio mewn dawnsiau. Adeiladu gwybodaeth am grwpiau cyhyrau a chryfder craidd i wella ansawdd symudiadau. Trafod aliniad y corff yn ystod symudiadau a sut mae angen i symudiadau ymestyn o’r corff. • Archwilio symudiadau ar rannau amrywiol o’r corf far lefelau amrywiol a datblygu gwybodaeth am drosglwyddo pwysau er mwyn uno symudiadau’n llyfn. • Archwilio sut gall y defnydd o lonyddwch ychwanegu cynnwys deinameg i’r ddawns a sut mae angen i hyn gydweddu â’r gosodiad clywedol a ddefnyddir. • Arbrofi gyda chynnwys deinameg a adeiladir i ddangos uchafbwynt dawns. • Archwilio gwahaniaeth men ymosodiad symudiad sy’n cysylltu hyn â’r gosodiad clywedol a ddewisir ynghyd â sut mae tempo symudiadau’n cysylltu â cherddoriaeth gefndir. • Datblygu’r defnydd o newidiadau mewn cyfeiriad a lefelau. Trafod sut gall y gosodiad clywedol gael ei ddefnyddio i nodi pry di ddefnyddio meintiau symudiadau amrywiol. • Datblygu dealltwriaeth o ddyluniad gofodol drwy gynllunio meysydd ar y cyd i’w defnyddio gyda grwpiau o feintiau gwahanol. • Dylai dawnsiau grŵp gynnwys rhai gweithrediadau arwain a dilyn o fewn yr un ddawns. Dylent ddechrau archwilio sut gall motiff cychwynnol gael ei ddatblygu i symud o undo di symudiadau arwain a dilyn. • Gwylio amrywiaeth o ddawnsiau i werthfawrogi’r defnydd o ffurf dawnslunio a sgiliau technegol. Ymchwilio i gymysgedd o arddulliau dawns/arddulliau cymysg a thrafod sut gall y rhain gael eu defnyddio i ddatblygu eu syniadau dawnslunio eu hunain. • Datblygu gwybodaeth am osodiadau clywedol yn meddu ar amrywiaeth o ddyfeisiau a ffurf strwythurol a thrafod sut gall y rhain gael eu hadlewyrchu yn y dawnslunio a gynlluniwyd. Ymchwilio i sut mae dawnswyr yn defnyddio’r rhain yn eu dawnsiau a myfyrio ar y dawnslunio a’r perfformiad.	• Mae’n hanfodol defnyddio amrywiaeth o weithgareddau sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu. • Sicrhau bod dealltwriaeth dda o’r elfennau CGGE i’w defnyddio mewn dawnsiau. Sut gall ffurf gael ei wella gan ddefnyddio gwybodaeth am grwpiau cyhyrau a chryfder craidd yn ogystal â deall aliniad y corff yn ystod symudiadau. • Archwilio a defnyddio symudiadau ar rannau amrywiol o’r corf far lefelau amrywiol a sut mae gwybodaeth am drosglwyddo pwysau yn caniatáu i symudiadau lifo. • Archwilio sut gall y defnydd o lonyddwch ychwanegu cynnwys deinameg i’r ddawns a sut mae angen i hyn gydweddu â’r gosodiad clywedol a ddefnyddir. • Arbrofi a defnyddio cynnwys deinamig i adeiladu i uchafbwynt dawns. • Dangos gwahanol ymosodiad symudiad sy’n cysylltu hyn â’r gosodiad clywedol a ddewisir ynghyd â sicrhau bod tempo symudiadau’n cysylltu â’r gerddoriaeth gefndir. • Dawnsiau i gynnwys newidiadau cyfeiriad a lefelau. Dehongli’r gosodiad clywedol i ddefnyddio maint penodol symudiad. • Wrth ddawnsio mewn grwpiau, arddangos dealltwriaeth o ddylunio gofodol drwy gynllunio meysydd a ddefnyddir gyda grwpiau o feintiau gwahanol. • Dylai dawnsiau grŵp gynnwys amrywiaeth o weithrediadau arwain a dilyn o fewn dawns. Y defnydd o fotiff cychwynnol i gael ei ddatblygu i symud o undo di symudiadau arwain a dilyn. • Gwylio amrywiaeth o ddawnsiau i werthfawrogi’r defnydd o ffurf dawnslunio a sgiliau technegol. Ymchwilio i amrywiaeth eang o arddulliau dawns/uno arddulliau sy’n gallu cael eu defnyddio i ddatblygu eu syniadau dawnslunio eu hunain. • Deall bod gan osodiadau clywedol amrywiaeth o ddyfeisiau a ffurfiau strwythurol, ac y gall y rhain gael eu hadlewyrchu yn y dawnslunio a gynlluniwyd. Ymchwilio i sut mae dawnswyr yn defnyddio’r rhain yn eu dawnsiau a myfyrio ar eu dawnslunio a’u perfformiad eu hunain. Trafod a gweithredu gwelliannau yn eu gwaith eu hunain.

Llinyn: Technegau Disgyblu (Dawns)					
	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Profiadau a Nodweddion		• Sefydlu siapiau cynulleidfa gwahanol fel bod dysgwyr yn dod i'r arfer â 'wynebu'r' gynulleidfa. Cyflwynir llinellau a chylchoedd traddodiadol ar y pwynt hwn, gyda chyflwyniad llwyfannu i helpu gyda'r ychwanegiad o ddefnyddio lefelau gwahanol yn eu dawnsiau.	• Gan ddefnyddio ysgogiadau, gall dysgwyr greu dawns fer gyda dechrau, canol a diwedd gan ddefnyddio ailadrodd a dawnsio gel grwpiau o feintiau cymysg. Grwpiau i archwilio symudiadau undod a chanon (ailadrodd) yn ogystal ag ailadrodd eu dilyniant am yn ôl er mwyn datblygu eu dawns. • Trafod sut gall gwelliannau gael eu gwneud yn eu gwaith eu hunain. • Sefydlu siapiau cynulleidfa gwahanol fel bod dysgwyr yn dod i'r arfer â 'wynebu'r' gynulleidfa. Cyflwynir llinellau a chylchoedd traddodiadol ar y pwynt hwn, gyda chyflwyniad llwyfannu i helpu gyda'r ychwanegiad o ddefnyddio lefelau gwahanol yn eu dawnsiau. • Gwrando ar gerddoriaeth wahanol er mwyn i'r dysgwyr ddewis yr hyn maent yn ei hoffi a siarad am y rheswm pam. Siarad am sut gall y ddawns helpu i bobl weld yr hyn y mae dysgwyr wedi siarad amdano. Siarad am gyflymder, teimladau, lefelau sain, seiniau miniog a llyfn, ac arwain y dysgwyr i ddefnyddio'r rhain yn eu symudiadau.	• Trafod sut gall gwelliannau gael eu gwneud yn eu gwaith eu hunain. • Dechrau deall datblygiad motiffau mewn dawnslunio a chynllunio i'r dyfeisiau gael eu defnyddio o fewn dawns. • Datblygu gwybodaeth am amrywiaeth o ddyfeisiau a ddefnyddir gan berfformwyr eraill. • Gwrando ac arfarnu cymysgedd o osodiadau clywedol. Trafod sut gall yr amrywiaethau gwahanol ddylanwadu ar ddewis dawnslunio a datblygiad dyfeisiau dawnslunio. • Gwylio amrywiaeth o berfformiadau ar ystod o amgylcheddau llwyfan, trafod a gwerthuso ffyrdd y cawsant eu defnyddio ac addasrwydd amgylcheddau gwahanol. • Cynllunio perfformiadau ar gyfer amgylcheddau gwahanol, trafod pam mae'r dewisiadau wedi cael eu gwneud mewn perthynas â'r dawnslunio. • Gwylio amrywiaeth o ddawnsiau a thrafod sut maent wedi cyfleu bwriad, a oeddent yn llwyddiannus a sut byddech yn newid pethau. • Ymchwilio i'r broses ddylunio o ran gwisg, setiau, dyluniad a goleuo. Trafod sut mae'r rhain yn ychwanegu at gynhyrchiad cyffredinol y dawnslunio. • Ymchwilio i ddyluniad cynhyrchiad, gweithio ar y cyd gydag eraill i ddatblygu gwisgoedd sy'n gwella symudiadau yn hytrach na'u cyfyngu. Dylunio setiau i ddefnyddio lefelau amrywiol mewn dawnslunio. Trafod ffyrdd y gallai goleuo gael ei ddefnyddio i wella rhannau penodol o ddawnslunio mewn perthynas â gwaith unigol o fewn dawns grŵp, neu waith grŵp llai o amgylch y llwyfan.	• Dangos dealltwriaeth a datblygiad motiffau mewn dawnslunio, gan sicrhau bod nifer o ddyfeisiau'n cael eu defnyddio o fewn dawns a bod amrywiaeth o ddulliau dawns yn derbyn ymchwil ac yn cael eu dawnslunio i ddatblygu gwybodaeth am amrywiaeth eang o ddyfeisiau a berfformir. • Gwrando ac arfarnu amrywiaeth o osodiadau clywedol. Esbonio sut gall yr amrywiaeth wahanol ddylanwadu ar ddewis dawnslunio a datblygiad dyfeisiau dawnslunio. • Gwylio amrywiaeth o berfformiadau ar amrywiaeth o amgylcheddau llwyfan, trafod a gwerthuso ffyrdd y cawsant eu defnyddio ac addasrwydd amgylcheddau gwahanol. • Cynllunio perfformiadau ar gyfer amrywiaeth o amgylcheddau, esbonio pam mae dewisiadau wedi cael eu gwneud mewn perthynas â datblygiad dawnslunio. • Gwylio amrywiaeth o ddawnsiau a thrafod sut maent wedi cyfleu bwriad, a oeddent yn llwyddiannus, sut byddech yn newid pethau. Dangos datblygiad gwelliannau mewn perthynas â thrafodaethau ynghylch bwriad. • Ymchwilio i'r broses ddylunio ynghylch gwisg, setiau, dyluniad a goleuo. Trafod sut mae'r rhain yn ychwanegu at gynhyrchiad cyffredinol dawnslunio. • Mewn perthyna â'u dawnslunio eu hunain, ymchwilio i ddyluniad cynhyrchiad, gweithio ar y cyd ag eraill i ddatblygu gwisgoedd sy'n gwella symudiadau yn hytrach na'u cyfyngu. Dylunio setiau i ddefnyddio lefelau amrywiol mewn dawnslunio. Trafod ffyrdd y gallai goleuo gael ei ddefnyddio i wella rhannau penodol o ddawnslunio mewn perthynas â gwaith unigol o fewn dawns grŵp, neu waith grŵp llai o amgylch y llwyfan.